# CYNGOR SIR PENFRO – ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG (AEI)

***Cyfeiriwch at y ddogfen ganllaw fanwl gyfatebol cyn ac wrth gwblhau'r asesiad. RHAID i asesiad effaith integredig gael ei gwblhau ar gyfer POB adroddiad cyngor / cabinet sy'n argymell penderfyniad ffurfiol yn ymwneud â'r canly***

- Newidiadau sylweddol i ddarpariaeth gwasanaeth
- Gwariant neu arbedion sylweddol
- Unrhyw gamau gweithredu sy'n arwyddocaol o ran eu heffeithiau ar gymunedau lleol

| Swyddog Arweiniol | Cyfarwyddwr / Pennaeth Gwasanaeth | Gwasanaeth / Adran | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Swyddog Ymchwil a Pholisi Corfforaethol | Cyfarwyddwr Addysg | Addysg | 10.02.2026 |

| **Teitl yr adroddiad / prosiect:** | Strategaeth DDRAFFT y Gymraeg 2021-26 |
|---|---|

| **Beth yw'r cynnig sy'n cael ei asesu?** |
|---|
| Yn rhan o Safonau'r Gymraeg, mae angen i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi cynllun 5 mlynedd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn Sir Benfro. Mae ein Strategaeth bresennol yn rhedeg o 2021 i 2026 ac o fewn y pum mlynedd bydd angen i ni adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig. Bydd y strategaeth 5 mlynedd newydd yn rhedeg o 2026 i 2031.<br><br>Rydym yn ymgynghori ar ein Strategaeth Gymraeg 2026-31 ddrafft. Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu yn dilyn yr ymgynghoriad cyn ei ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu, y Cabinet a'r Cyngor.<br><br>Mae'r Strategaeth yn cynnwys sut y byddwn yn cyfrannu at Stategaeth Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Llywodraeth Cymru, sy'n gosod targed o fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. |

**Mae’r ddogfen hon wedi’i rhannu fel a ganlyn:**

**Adran 1** Ymgynghori ac ymgysylltu
**Adran 2** Data a thystiolaeth

**Mae’r adrannau canlynol yn gofyn i chi asesu effaith eich cynnig o ystyried:**

**Adran 3** Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
**Adran 4** Amcanion llesiant Cyngor Sir Penfro
**Adran 5** Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a’r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)
**Adran 6** Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
**Adran 7** Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6
**Adran 8** Datgarboneiddio a newid hinsawdd – Cyngor Sir Penfro sy’n garbon sero net erbyn 2030
**Adran 9** Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

| **Adran 1 – Ymgynghori ac ymgysylltu**<br><br>Rhowch fanylion y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd i gefnogi’r cynnig, gan ystyried egwyddorion Gunning ar gyfer ymgynghori â’r cyhoedd, sy’n nodi mai dim ond pan fydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu bodloni y mae ymgynghoriad yn ddilys:<br>1. Mae’r cynigion mewn cyfnod ffurfiannol – ni ddylai penderfyniadau fod wedi’u gwneud na’u pennu ymlaen llaw<br>2. Mae digon o wybodaeth i roi ‘ystyriaeth ddeallus’ – rhaid i wybodaeth sy’n ymwneud â’r ymgynghoriad fod ar gael, yn hygyrch ac yn hawdd ei dehongli fel bod ymgyngoreion yn gallu rhoi ymateb gwybodus<br>3. Mae digon o amser i ystyried ac ymateb – rhaid i’r cyfnod ymgynghori fod yn ddigon hir i roi digon o gyfle i ymgyngoreion gymryd rhan<br>4. Rhaid ystyried ymatebion i ymgynghoriadau cyn gwneud penderfyniad – a allwch chi ddarparu tystiolaeth o hyn? |
|---|
| Nid yw penderfyniadau ynghylch y Strategaeth ddrafft hon eisoes wedi'u gwneud neu wedi'u penderfynu ymlaen llaw. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud fel rhan o'r broses ddemocrataidd, fel y manylir isod.<br><br>Bydd Asesiad Effaith Integredig a'r wybodaeth a ddarperir yn y Strategaeth Ddrafft yn cefnogi ymatebwyr i nodi ymateb gwybodus yn ystod y cyfnod ymgynghori. |

Ymgynghorir ar Strategaeth Ddrafft y Gymraeg o ddechrau mis Chwefror tan 22 Mawrth 2026 er mwyn caniatáu digon o amser i ystyried ac ymateb. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Polisi a Chyn Penderfynu ym mis Mehefin, a'r Cabinet a'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2026.

Bydd y wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei defnyddio i helpu'r Aelodau i benderfynu beth fydd yn y Strategaeth Gymraeg 2026-31 derfynol. Bydd y Cabinet yn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad, yr Asesiad Effaith Integredig a'r Strategaeth Ddrafft yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2026. Bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2026.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael drwy wefan Dweud eich Dweud ac rydym yn gobeithio ymgysylltu ag ystod amrywiol o bobl o wahanol ardaloedd ledled Sir Benfro (gogledd, de, gwledig a threfol).

Cynhwysir cwestiynau penodol ar y Gymraeg ac effaith y Strategaeth ar y Gymraeg.

**Y broses ymgysylltu**

- Bydd holl ddogfennau’r ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Bydd y wefan sy'n cynnal yr ymgynghoriad yn gwbl ddwyieithog, gan alluogi defnyddwyr i gael yr holl wybodaeth yn yr iaith y maent yn ei dewis.
- Bydd ymgyngoreion yn gallu cyfathrebu ac ymateb naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, a bydd pob ymateb yn cael ei drin yn gyfartal.

Mae'r mesurau hyn yn cefnogi'n weithredol y defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i hyrwyddo'r iaith yn ystod y broses ymgysylltu.

O ganlyniad:

- Bydd cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, drwy ymgynghori ac ymgysylltu.
- Bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei thrin heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Adran 2 – Data a thystiolaeth**

Rhowch fanylion y data a’r dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu’r cynnig, e.e. adroddiadau, data lleol neu genedlaethol, adborth defnyddwyr gwasanaeth, canlyniadau ymgynghoriadau blaenorol, cynlluniau busnes ac ati. (Dylid ychwanegu tystiolaeth benodol sy’n ymwneud â gofynion deddfwriaethol at yr adrannau perthnasol 3 i 9 isod.)

**Mae'r data a'r dystiolaeth a ddefnyddir yn cynnwys:**

- cyd-destun polisi cenedlaethol a lleol, cyd-destun ieithyddol ac adolygiad cychwynnol o'n Strategaeth Gymraeg a'n Cynllun Gweithredu ar gyfer 2021-26
- ymgynghori ag arweinwyr gwasanaeth y Cyngor o fewn Grŵp Datblygu Strategaeth y Gymraeg sy'n cefnogi'r Strategaeth Gymraeg bresennol.
- adolygu ymarferion ymgynghori blaenorol ac adborth ohonynt
- adolygu adroddiadau blynyddol gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg, Adroddiad Adolygu Blynyddol y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Adroddiad Adolygu Hunanasesu Blynyddol y Cyngor ac adborth gan Bwyllgorau'r Cyngor a'r Cabinet.

O hyn, nodwyd themâu sy'n dod i'r amlwg sydd wedi helpu i ddatblygu a llunio ein Cynllun Gweithredu ar gyfer 2026-31.

**Polisi Cenedlaethol/lleol:**

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
- Strategaeth Cymraeg 2050
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Fframwaith strategol 'Mwy na geiriau'
- Polisi cynllunio cenedlaethol
- Strategaeth Gorfforaethol 2025–2030
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–31
- Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro
- Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol

**Data:**

- Mae'r cyd-destun ieithyddol yn y ddogfen Strategaeth yn cynnwys defnyddio data'r Cyfrifiad a'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, gan gynnwys cymariaethau rhwng data Cyfrifiad 2011 a 2021 ar nifer / canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran, y gallu i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar ac amlder siarad Cymraeg (dyddiol, wythnosol, yn llai aml).
- Ystadegau ysgolion Sir Benfro gan gynnwys nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, disgyblion a siaradwyr.

**Adran 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae’r canllawiau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y nodau llesiant a datblygu cynaliadwy:
https://www.llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-yr-hanfodion

Pa rai o’r nodau llesiant cenedlaethol canlynol y mae’r cynnig yn effeithio arnynt neu’n cyfrannu at eu cyflawni?

| **Nod llesiant cenedlaethol** | **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | | |
|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy’n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Mae'r Strategaeth hon yn cyfrannu'n benodol at y nod llesiant "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu", yn unol â'r Ddeddf, ac mae ganddi rôl sylweddol i'w chwarae ar draws pob un o'r 7 nod Llesiant.<br><br>Prif bwrpas y Strategaeth yw nodi sut y byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Sir. | | |
| | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | | |
| | **Dim effaith – rhowch esboniad** | | |

**Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?**

Bydd monitro ac adolygu parhaus yn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi a'u datrys .

<u>Egwyddor datblygu cynaliadwy</u>

Mae’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu, wrth wneud penderfyniadau, bod angen i’r cyngor ystyried yr effaith y gallai’r penderfyniadau hyn ei chael ar bobl sy’n byw yng Nghymru yn y dyfodol drwy ystyried y pum ffordd ganlynol o weithio:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithredu
- Cynnwys pobl

| Amlinellwch sut rydych chi wedi ystyried pob un o’r rhain wrth ddatblygu eich cynnig. | |
| --- | --- |
| **Ffyrdd o weithio** | **Sut ystyriwyd hyn wrth ddatblygu eich cynnig?** |
| Hirdymor | Mae'r Strategaeth hon yn cwmpasu cyfnod o 5 mlynedd sef 2026-31 a'i nod yw cefnogi gweledigaeth a strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru "*Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*" sydd â’r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.<br>Mae'r ystyriaethau yn cynnwys diogelu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau, addysg, gweithleoedd a gwasanaethau, cynllunio ar gyfer newid demograffig (tai, twristiaeth, mewnfudo) a'r effaith hirdymor ar gymunedau Cymraeg yn Sir Benfro a buddsoddi mewn sgiliau, addysg a defnydd digidol o'r Gymraeg i sicrhau bod yr iaith yn parhau i fod yn berthnasol ac yn wydn. |
| Atal | Gostyngodd canran y siaradwyr Cymraeg yn Sir Benfro 2% o 19.2% yn 2011 i 17.2% yn 2021, ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (17.8%). Ein nod yw atal dirywiad pellach yng nghanran y siaradwyr Cymraeg drwy weithredu a monitro Strategaeth y Gymraeg 2026-31 yn erbyn data'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol. Byddwn yn gwneud hyn drwy'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg, gan ddarparu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg mewn ysgolion hyd at fod yn oedolion ac yn ddiweddarach, gan gymryd camau i atal dirywiad yn y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd traddodiadol Cymraeg, cefnogi dysgwyr a theuluoedd yn gynnar i atal rhwystrau rhag defnyddio'r Gymraeg yn ddiweddarach mewn bywyd. |
| Integreiddio | Mae'r ystyriaethau yn cynnwys sicrhau bod Strategaeth y Gymraeg yn cyd-fynd â strategaethau/polisïau eraill y cyngor, megis addysg, tai, datblygiad economaidd, cynllunio datblygiad lleol, a lles, a chefnogi'r Nodau Llesiant ehangach i Gymru, gan gynnwys diwylliant bywiog a chymunedau cydlynol. |
| Cydweithredu | Rydym wedi cydweithio â Grŵp Cyflawni Strategaeth y Gymraeg sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r strategaeth hon. Byddwn yn cynnwys cydweithredu ehangach â rhanddeiliaid eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda sefydliadau partner, sy'n allweddol i allu cyflawni'r Strategaeth yn llawn. Rydym yn cydweithio ag awdurdodau cyfagos a chyrff cenedlaethol i rannu arfer da ac adnoddau. |
| Cynnwys pobl | Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus o ddechrau mis Chwefror tan 20 Mawrth 2026. Bydd yn cael ei hyrwyddo i wahanol randdeiliaid, a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'n cynnwys cwestiynau demograffig a fydd yn ein helpu i sicrhau ein bod wedi casglu barn amrywiaeth o bobl ac wedi rhoi cyfle i bawb o bob cefndir gymryd rhan. |

**Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu’r wybodaeth uchod**

**Strategaethau / Fframweithiau Lleol / Cenedlaethol**

- Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- Safonau’r Gymraeg

**Data Poblogaeth a Gallu Iaith**

- Cyfrifiad 2011 a 2021
- Data Arolwg Poblogaeth Blynyddol- Defnyddiol ar gyfer olrhain tueddiadau rhwng cyfrifiadau
- Data addysg

Llawer o ogledd Sir Benfro, ac yn enwedig gogledd-ddwyrain Sir Benfro, yn gadarnle i'r Gymraeg. Felly mae angen i'r strategaeth gynnal yr iaith yn y cymunedau hyn, yn enwedig ei defnydd bob dydd, tra bod y potensial mwyaf ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau yng nghanol a de'r sir.

Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod pwysigrwydd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol bywyd bob dydd o fewn y gymuned. Mae'r cysyniad o ardaloedd o arwyddocâd neu sensitifrwydd ieithyddol wedi bod yn rhan o'r drafodaeth am gynllunio iaith yng Nghymru ers bron i ugain mlynedd ac fe'i cyfeirir ato yn adroddiadau diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a Llywodraeth Cymru.[1] [2] Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is gyda 40% neu uwch o boblogaeth yr ardal sy'n gallu siarad Cymraeg yn cynnwys Crymych (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1 a 2), Clydau, Dinas, Cilgerran, Maenclochog (Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is 1 a 2), Llandudoch a Threfdraeth.

[1] Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg

[2] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg

| **Adran 4 – Amcanion llesiant Cyngor Sir Penfro**<br><br>O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i gyhoeddi amcanion llesiant. Mae ein strategaeth gorfforaethol yn amlinellu amcanion llesiant y cyngor.<br><br>A ydyw eich cynnig yn helpu i gyflawni unrhyw un o amcanion llesiant y cyngor? A fydd ganddo effaith gadarnhaol neu negyddol? | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan llesiant** | **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith – rhowch esboniad** |
| Ein Dyfodol – galluogi'r dechrau gorau mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc, wrth eu cyfarparu â sgiliau ar gyfer y dyfodol | Mae'r Cynllun Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at yr amcan hwn - drwy ehangu blynyddoedd cynnar ac addysg Gymraeg yn yr ysgol drwy 7 canlyniad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gweithgareddau allgyrsiol trwy bartneriaid. | - | - |
| Ein Lle – lleoedd llewyrchus, gydag amgylcheddau glân, diogel a chynaliadwy, lle gall pobl fyw'n dda a ffynnu | Mae'r Gymraeg yn ystyriaeth o fewn polisïau lleol (e.e. addysg, tai, cynllunio).<br>Bydd gweithgareddau cymunedol Cymraeg, digwyddiadau diwylliannol a darpariaeth ieuenctid yn helpu i ddod â phobl at ei gilydd, gan gryfhau cydlyniant cymdeithasol a chysylltiadau rhwng cenedlaethau.<br>Mae hyrwyddo'r Gymraeg hefyd yn cefnogi busnesau lleol, twristiaeth a chyfleoedd swyddi, gan helpu pobl Sir Benfro i ffynnu a byw'n dda. | - | - |
| Ein Cymunedau – gofalu am bobl, a galluogi cymunedau gweithgar, dyfeisgar a chysylltiedig | Camau gweithredu penodol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg o dan yr Amcan Llesiant hwn yw:<br>• Datblygu a chynhyrchu Strategaeth Gymraeg newydd erbyn 2026, gyda chyfranogiad yr holl randdeiliaid allweddol<br>• Parhau i gyflwyno prosiectau diwylliannol sy'n cryfhau cysylltiadau ag iaith, lles a lle (cynefin) | - | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gyntaf, gan gynnwys gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2026. | | |
| Ein Cyngor – cyngor sy'n gynaliadwy yn ariannol, sydd wedi'i lywodraethu'n dda, a chanddo weithlu sy'n gallu cefnogi'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu | Drwy gynllunio'n effeithiol ar gyfer sgiliau Cymraeg, drwy recriwtio a chadw, cefnogi datblygiad staff a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau dwyieithog, mae'r strategaeth yn helpu'r Cyngor i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau a'r hyder i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg lle bo angen, bodloni ei ddyletswyddau statudol Cymraeg ac ymateb i anghenion trigolion nawr ac yn y dyfodol. Mae trigolion yn gallu bod yn rhan o'r broses ddemocrataidd yn yr iaith y maent yn ei dewis. | - | - |

**Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?**

Bydd monitro ac adolygu parhaus yn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi a'u datrys.
Gall ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ar effeithiau tebygol ac awgrymiadau o sut y gellid lliniaru'r rhain.

**Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod**

Strategaeth Gorfforaethol

**Adran 5 – Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol (Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Gall fod gan unigolion fwy nag un nodwedd warchodedig.

Disgrifiwch unrhyw effeithiau ar y grwpiau canlynol:

| Nodwedd warchodedig | Cadarnhaol – disgrifiwch | Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol | Dim effaith – rhowch esboniad |
|---|---|---|---|

<table>
<tr><td><ul><li>Oedran</li><li>Anabledd</li><li>Ailbennu rhywedd</li><li>Priodas a phartneriaeth sifil</li><li>Beichiogrwydd a mamolaeth</li><li>Hil</li><li>Crefydd neu gred</li><li>Rhyw</li><li>Cyfeiriadedd rhywiol</li></ul></td><td>Bydd y strategaeth yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r Gymraeg ar draws pob nodwedd warchodedig.</td><td>-</td><td>-</td></tr>
<tr><td colspan="4">Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Bydd monitro ac adolygu parhaus yn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi a'u datrys.<br>Gall ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ar effeithiau tebygol ac awgrymiadau o sut y gellid lliniaru'r rhain.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu’r wybodaeth uchod</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gall yr ymatebion i'r ymgynghoriad ddarparu barn ar unrhyw effeithiau negyddol ar y grwpiau uchod.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Mae’r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad sy’n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at y rhai sy’n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn y gymdeithas. Mae anghydraddoldeb canlyniad yn ymwneud â gwahaniaethau mesuradwy mewn canlyniad rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth. Mae canllawiau manwl ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.<br><br>Disgrifiwch yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol</td><td>Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol</td><td>Dim effaith – rhowch esboniad</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae posibilrwydd i'r strategaeth helpu i leihau anfantais yn Sir Benfro drwy roi cyfleoedd i fwy o bobl ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn helpu i wella sgiliau, ac yn agor</td><td>-</td><td>-</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| cyfleoedd ar gyfer dysgu pellach a chyflogaeth. Bydd gweithgareddau a digwyddiadau hygyrch ar gyfer pob gallu yn annog mwy o bobl i gymryd rhan, gwella lles, a chynyddu cyfranogiad mewn bywyd diwylliannol a chymunedol. | | |
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** | | |
| Bydd monitro ac adolygu parhaus yn sicrhau bod unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu nodi a'u datrys.<br>Gall ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ar effeithiau tebygol ac awgrymiadau o sut y gellid lliniaru'r rhain. | | |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** | | |
| Gall yr ymatebion i'r ymgynghoriad ddarparu barn ar unrhyw effeithiau negyddol ar y grwpiau uchod. | | |

| Adran 6 – Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br><br>Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ystyried yr effaith gadarnhaol neu negyddol y gallai cynnig ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Disgrifiwch yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael. | | |
|---|---|---|
| **Cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith** |

Ein nod yw cefnogi *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* Llywodraeth Cymru ac adlewyrchu ei themâu strategol.

*"Mae'r Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cyrraedd miliwn, ac mae'n cael ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mae ewyllys da ac ymdeimlad o berchnogaeth tuag at yr iaith a chydnabyddiaeth o'i holl gyfraniad at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru."*

**Themâu strategol *Cymraeg 2050*:**
1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. Creu amodau ffafriol, seilwaith a chyd-destun

Bydd ein hamcanion yn cael eu cario ymlaen o 2021–26 ac yn adlewyrchu'r weledigaeth genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r defnydd o'r iaith:

1. **Datblygu ein rôl arweinyddiaeth gymunedol o ran y Gymraeg**

**Effeithiau cadarnhaol:**
- Trefniadau llywodraethu ar gyfer Strategaeth y Gymraeg – goruchwylio gweithrediad, monitro, ac adrodd ar gynnydd
- Gwella canfyddiadau o rôl a phwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu arweinyddiaeth gymunedol – trwy barhau i alluogi defnydd o'r Gymraeg yng nghyfarfodydd y cyngor

2. **Ehangu addysg blynyddoedd cynnar ac addysg yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg (fel y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg)**

**Effeithiau cadarnhaol:**
- plant oedran meithrin sy'n derbyn gofal plant / addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg, dosbarthiadau derbyn a'r disgyblion cyfrwng Cymraeg, dysgwyr trwy gyfnodau pontio allweddol, cymwysterau a'r pynciau y gellir eu hastudio drwy gyfrwng

y Gymraeg, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, Cymorth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg, gweithgareddau cymunedol ac ieuenctid a ddarperir, athrawon a staff cymorth sydd â gallu cyfrwng Cymraeg.

3. **Gwella cyfleoedd i bobl sy'n gadael yr ysgol, ac oedolion eraill, ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn Sir Benfro**

**Effeithiau cadarnhaol:**

- Rhan a chwblhau mewn dysgu, mynychu a chwblhau cyrsiau, ymgyrchoedd/digwyddiadau a hyrwyddwyd, defnydd o'r Gymraeg / hyder, Hyrwyddo ac annog mwy o ddefnydd o wasanaethau digidol – y we / cyfryngau cymdeithaso, cefnogi'r "cynnig rhagweithiol" drwy gynllun gweithredu "Mwy na Geiriau", a Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg

4. **Cefnogi'r Gymraeg yn weithredol o fewn ein cymunedau / sector busnes**

**Effeithiau cadarnhaol:**

Gwybodaeth am y Gymraeg / adnoddau, fusnesau sy'n ymwybodol o adnoddau ac yn darparu gwasanaethau dwyieithog, mae ystyriaeth o effaith ar y Gymraeg yn cael eu hymgorffori mewn polisïau, Data cywir a chyfredol am sgiliau Cymraeg y gweithlu ar gyfer yr holl staff, swyddi lle mae'r Gymraeg wedi'i dynodi a hysbysebwyd a'u llenwi, swyddi a hysbysebwyd gyda sgiliau Cymraeg dynodedig wedi'u pennu, defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau drwy dechnoleg, defnyddio technoleg sydd ar gael, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, e-ddysgu, a thechnolegau iaith, i gefnogi defnydd o'r Gymraeg, gyfleoedd ar gyfer cyllid grant i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion.

Disgwylir i'r Strategaeth gael effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ac mae'n cynnwys:

- Cyfleoedd ar gyfer dysgu a defnyddio'r Gymraeg i bobl o bob oed drwy ysgolion, dysgu oedolion a darpariaeth gymunedol (Cymraeg Gwaith a Dysgu Sir Benfro).
- Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg, cynyddu trochi hwyr, a datblygu'r gweithlu. Bydd cynllunio pontio yn sicrhau parhad datblygiad a dilyniant iaith.
- Helpu i godi amlygrwydd yr iaith, a hyrwyddo ei statws cyfartal yn Sir Benfro.
- Cyflwyno gweithgareddau a digwyddiadau gyda phartneriaid yn cefnogi defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg, yn hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion
- Bydd yr Eisteddfod ym mis Awst 2026, yn cael ei chynnal yng ngogledd Sir Benfro, yn cynnig cyfle rhagorol i hyrwyddo a dathlu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

**Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol**

- Mae newidiadau i'r boblogaeth yn her i gyflawni gweledigaeth *Cymraeg 2050* a sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu mewn cymunedau a gweithleoedd.

- Gall pwysau a chyfyngiadau cyllidebol drwy gydol y Strategaeth effeithio ar staffio / adnoddau i gyflawni'r Strategaeth. Mae hyn hefyd yn berthnasol i sefydliadau eraill.
- O ystyried ehangder y Cynllun, mae'n siŵr y bydd lefel gyffredinol yr adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor a sefydliadau eraill yn effeithio ar gyflawni.
- Mae bylchau yn y data rydyn ni'n ei gasglu ar lefelau sgiliau Cymraeg ein staff. Mae'r rhain yn effeithio ar ddealltwriaeth o sgiliau a capasiti gweithlu.
- Efallai y bydd rhai pobl yn ystyried hyrwyddo'r iaith yn negyddol

**Dim effaith**

**-**

| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** | |
|---|---|

- Trefniadau llywodraethu cadarn ac adolygiad blynyddol i fesur pa mor dda yr ydym yn gwneud.
- Parhau i wella cyfleoedd i blant ac oedolion, i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn gymdeithasol er mwyn sicrhau nad yw sgiliau Cymraeg yn cael eu colli wrth i'n pobl ifanc drosglwyddo allan o'r system addysg i'r byd gwaith a bywyd fel oedolion.
- Mae ein heconomi yn dibynnu ar dwristiaeth ac mae cyfleoedd yma i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth y Gymraeg.
- Ceisio cyllid ar gyfer buddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Efallai y bydd cymorth ariannol ar gael i helpu i dalu'r ffioedd a godir ar gyrsiau Cymraeg.
- Bydd y cynllun yn cael ei addasu i ystyried unrhyw ostyngiadau mewn adnoddau drwy Grŵp Cyflawni y Strategaeth.
- Er bod heriau, mae cyfleoedd clir i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn iaith gymunedol ffyniannus. Gallwn ddefnyddio technoleg, gwella recriwtio'r gweithlu a data, cryfhau partneriaethau, ymgorffori polisïau sy'n hyrwyddo ac ystyried y defnydd o'r iaith, a chreu stoc dai a swyddi newydd drwy ein cynllun datblygu lleol i gefnogi teuluoedd i aros yn Sir Benfro.

**Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu’r wybodaeth uchod**

**Adran 2 – Data a thystiolaeth**

Gall ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ar effeithiau tebygol ac awgrymiadau o sut y gellid lliniaru'r rhain.

| **Adran 7 – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Dyletswydd Adran 6**<br><br>O dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i'r cyngor geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a, thrwy wneud hynny, rhaid inni hefyd geisio hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A ydyw'r cynnig yn effeithio ar fioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau? | **Ydyw** | | **Nac ydyw** | **X** |
| **Os ydyw, beth yw effaith ddisgwyliedig y cynnig ar fioamrywiaeth? Rhowch esboniad** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** | | | | |
| Er na ystyrir bod unrhyw effaith ar fioamrywiaeth o ganlyniad i'r strategaeth, bydd unrhyw estyniadau ysgolion cyfrwng Cymraeg/ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd ac ati yn y dyfodol yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosiect unigol. | | | | |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** | | | | |
| Gall ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ar effeithiau tebygol ac awgrymiadau o sut y gellid lliniaru'r rhain. | | | | |

| **Adran 8 – Datgarboneiddio a newid hinsawdd – Cyngor Sir Penfro sy'n garbon sero net erbyn 2030**<br><br>Ym mis Mai 2019, pleidleisiodd y cyngor i ddatgan argyfwng hinsawdd ac, ym mis Gorffennaf yn yr un flwyddyn, pleidleisiodd i ddatblygu cynllun gweithredu i lywio Cyngor Sir Penfro tuag at ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun gweithredu ar gael ar wefan y cyngor.<br><br>Pa effeithiau fydd gan y cynnig ar ymrwymiad y cyngor i ddod yn awdurdod lleol carbon sero net erbyn 2030? | | |
|---|---|---|
| **Cadarnhaol – disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol** | **Negyddol – esboniwch unrhyw effeithiau negyddol** | **Dim effaith – rhowch esboniad** |
| | | Ni ddisgwylir unrhyw effaith. |

| Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod? |
|---|
| - |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** |
| Gall ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ar effeithiau tebygol ac awgrymiadau o sut y gellid lliniaru'r rhain. |

**Adran 9 – Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog**

Mae gan y cyngor rwymedigaeth gyfreithiol o dan y ddyletswydd uchod i ystyried effaith penderfyniadau sy'n effeithio ar aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog neu sy'n gyn-aelodau o'r lluoedd arfog, wrth gyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd, tai ac addysg. Ym mis Medi 2024, dyfarnwyd Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn i Gyngor Sir Penfro, gan dynnu sylw at ymrwymiad yr awdurdod i gefnogi'r rhai sy'n cadw ein cenedl yn ddiogel, yn ogystal â'u teuluoedd a chyn-filwyr. Mae canllawiau statudol ar gael ar wefan Gov.uk. Disgrifiwch effeithiau'r cynnig ar gymuned y lluoedd arfog mewn perthynas â'r canlynol:

| Swyddogaethau perthnasol | Cadarnhaol | Negyddol | Dim effaith – rhowch esboniad |
|---|---|---|---|
| **Iechyd**<br>• Darparu gwasanaethau<br>• Cynllunio a chyllido<br>• Cydweithrediad rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol<br>**Tai**<br>• Polisi dyrannu ar gyfer tai cymdeithasol<br>• Digartrefedd<br>• Grantiau cyfleusterau i bobl anabl<br>**Addysg**<br>• Derbyniadau<br>• Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm<br>• Llesiant plant | Bydd y strategaeth yn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r Gymraeg<br><br>Mae'n annhebygol y bydd y Strategaeth yn effeithio'n wahanol ar aelodau o gymuned y lluoedd arfog o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.<br><br>Mae'r cwestiwn demograffig ynghylch a yw ymatebydd yn aelod o gymuned y lluoedd arfog wedi'i gynnwys yn y ffurflen ymateb. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| • Trafnidiaeth<br>• Presenoldeb<br>• Cymorth anghenion ychwanegol | | | |

| |
|---|
| **Beth fydd yn cael ei wneud i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd uchod?** |
| Gall ymatebwyr yr ymgynghoriad ddarparu tystiolaeth ar effeithiau tebygol ac awgrymiadau o sut y gellid lliniaru'r rhain. |
| **Amlinellwch unrhyw ffynonellau data neu dystiolaeth penodol i ategu'r wybodaeth uchod** |
| Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i nodi effeithiau negyddol a nodwyd gan gyn-aelodau o'r lluoedd arfog. |

| **Cymeradwyaeth cyfarwyddwr / pennaeth gwasanaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw:** | Steven Richards-Downes | | |
| **Teitl y swydd:** | Cyfarwyddwr Addysg | | |
| **Llofnod:** | Steven Richards-Downes | **Dyddiad:** | 10.02.2026 |